Gwelliannau a Newidiadau

Efallai y bydd y ffasiwn ddiweddar mewn rhaglenni teledu sydd yn eich annog i wella eich cartref a 'Gwneud-ef-eich hunan' (DIY) yn gwneud i chi feddwl am newidiadau yr hoffech eu gwneud yn eich tŷ.

Nid oes gennym wrthwynebiad i chi wneud gwelliannau 'DIY' ar y cyfan ond cyn eich bod yn cychwyn unrhyw waith mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch Swyddfa Dai, yn ysgrifenedig, gan ddweud wrthym beth yr ydych yn bwriadu ei wneud.

Mi ddylech aros hyd nes eich bod yn derbyn yr amodau caniatâd cyn eich bod yn cychwyn y gwaith.

GWELLA NEU NEWID EICH ANNEDD – CAEL CANIATÂD

Os ydych yn dymuno gwneud gwelliannau i'ch eiddo, heblaw am addurno arferol, mi fydd yn rhaid i chi wneud cais i'ch Swyddfa Dai am ganiatâd.
Gelwir hwn yn 'Ganiatâd Landlord' ac mae'r rheolau sydd yn llywio sut ydym yn delio gyda cheisiadau o'r fath wedi ei gosod mewn cyfraith. Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith yr ydych yn ei wneud yn cael ei gwblhau i'r safon uchaf posib, ac yn ddiogel a lle bo angen, ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau Adeiladu a Chynllunio.

FELLY PA FATH O WAITH SYDD ANGEN CANIATÂD ARNOCH AMDANO?

Mae'r diffiniad o welliant yn golygu **unrhyw newid** o fewn **neu yn ychwanegol** i annedd breswyl, ac mae'n cynnwys:

- Unrhyw ychwanegiad neu newid i'r gosodion neu ffitiadau neu ffabrig mewnol/allanol yr adeilad.

  Mae hwn yn cynnwys; gosodion neu ffitiadau cegin ac ystafelloedd ymolchi, drysau, ffenestri, waliau, lleoedd tân, patios, grisiau, llwybrau, gatiau, ffensys, lle llawr caled, tramwyfeydd neu ychwanegu portsh, goleuadau allanol, garej, siedau, llawr pren, defnyddio artecs, decin gardd.

- Unrhyw ychwanegiad neu addasiad sydd wedi ei gysylltu â'r darpariaeth o wasanaethau. **Gan gynnwys gwasanaethau gwresogi, golau, dŵr.**

- Codi erial ddi-wifren neu radio neu ddysgl lloeren.

- Gwneud addurno allanol.
  Megis paentio y drysau, ffenestri, gatiau neu waliau yn allanol.

ARDALOEDD CYMUNEDOL

Mae gwelliannau a newidiadau ar gyfer ardaloedd cymunedol yn cael eu hystyried ar sail bob achos. Gofynnwch am fwy o gyngor oddi wrth eich Swyddfa Tai leol cyn gwneud unrhyw waith neu cyn gosod unrhyw beth o fewn yr ardaloedd hyn

OS YDYCH YN MEDDWL AM WNEUD UN O'R GWELLIANNAU UCHOD CYSYLLTWCH Â NI CYN I CHI GYCHWYN !!!

BETH SYDD YN DIGWYDD NESAF?

Unwaith ein bod wedi derbyn eich cais efallai bydd angen trefnu ymweliad, i drafod y cynnig gyda chi. Os yw'r gwaith yn effeithio ar eich cymdogion, bydd angen cysylltu â nhw i sicrhau nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau Bydd disgwyl i chi hefyd ddilyn unrhyw ganllaw neu amodau a nodir fel rhan o ganiatâd y landlord.

Os oes angen caniatâd Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu arnoch i wneud y gwelliannau, bydd rhaid i chi wneud cais am y rhain eich hun **cyn y gallwch fynd unrhyw gam ymhellach.** Efallai bydd rhaid i chi dalu am hyn. Pan fyddwch wedi gwneud hyn mi fydd yn rhaid i chi ddarparu copïau i'r Swyddfa Tai cyn ein bod medru rhoi caniatâd i chi fwrw ymlaen.

Mi fyddwn yn categoreiddio y gwelliant yn unol â'n polisi a gweithdrefn gyfredol, sicrhau bod eich cynlluniau yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Adeiladu a / neu Cynllunio a'ch hysbysu cyn gynted â phosibl os medrwch barhau.

PAM FOD ANGEN EIN CANIATÂD ARNOCH?

- Mae'n rhaid ein bod yn sicrhau bod y newidiadau neu welliannau yr ydych am ei wneud yn ddiogel
- Ddim yn dibrisio gwerth yr eiddo
- Yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu
- Ddim yn achosi problemau neu yn taro ar draws gwasanaethau a ddarperir i denantiaid eraill
- Ddim yn gwneud eich eiddo yn ddrytach i'w gynnal a'i chadw

Os ydych yn gwneud gwelliannau fel rhoi system gwers ganolog i fewn efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn iawndal os fyddwch yn gadael yr eiddo yn ddiweddarach.

Os fydd rhaid i ni gymryd drosodd y gwaith cynnal a chadw'r newid neu welliant, efallai y byddwch yn darganfod eich bod yn gorfod talu am y gwasanaeth hwn, os nad ydych wedi gofyn caniatâd cyn i chi wneud y gwaith.

Mi fyddai hwn hefyd yn gymwys os yw'r gwaith yn ddiffygiol, neu os nad yw yn dod o fewn y rheoliadau Adeiladu neu Gynllunio cyfredol ac mae'n rhaid i ni ddychwelyd eich cartref i'w cyflwr gwreiddiol er mwyn ei wneud yn ddiogel i chi fyw ynddo.

OS YDYCH YN MYND I WNEUD GWAITH 'DIY' *COFIWCH* NAD OES YN RHAID I'R CYNGOR CYNNAL GWAITH SYDD WEDI EI WNEUD HEB GANIATÂD.

GOFYNNWCH AM GANIATÂD Y LANDLORD BOB TRO CYN EICH BOD YN GWNEUD NEWIDIADAU NEU WELLIANNAU.